



Cyngor Bwrdeistref Sirol

**Blaenau Gwent**

County Borough Council

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent 2024-2028

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent 2024-2028

Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig: [Cydraddoldeb ym Mlaenau Gwent](#)

Mae fersiwn o'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall a mewn copiau caled ym mhob un o lyfrgelloedd lleol Blaenau Gwent.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, Braille, fersiwn sain ac ati, cysylltwch â:

### Polisi a Phartneriaethau

E-bost: [pps@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:pps@blaenau-gwent.gov.uk)

***This document is available in English***  
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

## **Croeso a Chyflwyniadau**

Mae'n bleser gennym gyflwyno pedwerydd **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent: cynllun ar gyfer y cyfnod 2024-28 sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010.

Mae rhoi tegwch a chydraddoldeb wrth galon popeth a wnawn yn ganolog i sicrhau'r canlyniadau lles mwyaf posibl i'n trigolion, cymunedau lleol, staff ac ymwelwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus fod gennym rôl allweddol i'w chwarae wrth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Felly, byddwn yn parhau i ymdrechu i gyflawni ein blaenoriaeth o '[F]laenau Gwent – lle sy'n deg, agored a chroesawgar i bawb drwy weithio gyda a thros ein cymunedau', fel yr amlinellir yn [Cynllun Corfforaethol 2022-7](#).

Mae ein cynllun yn gosod y dull gweithredu y byddwn yn ei gymryd dros y pedair blynedd nesaf i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws Blaenau Gwent. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y camau yr ydym wedi'u cymryd dros y pedair blynedd diwethaf ac yn parhau i ymgorffori cydraddoldeb ledled ein sefydliad er mwyn sicrhau newid ystyrlon.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r prosesau ymgysylltu i ddatblygu'r cynllun ac edrychwn ymlaen at barhau â'r daith hon gyda chi drwy gydol y broses o gyflawni'r cynllun.

## Rhagymadrodd

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y cyngor ddyletswydd statudol i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol gydag amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Rhaid i'r cynllun roi sylw dyledus i sut y gall y cyngor gyfrannu at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 yn diogelu pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu os ydynt yn rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig canlynol.

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl oherwydd:

- **Oedran** – Rhywun sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. 18-30 oed).
- **Anabledd** – Er enghraifft, amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.
- **Ailbennu rhywedd** – Er enghraifft, pobl drawsryweddol. Pobl a gafodd eu geni i'w corff sy'n teimlo nad yw'n iawn iddyn nhw. Gallai hyn olygu eu bod am newid o fod yn fenyw i fod yn ddyn, neu o fod yn ddyn i fod yn fenyw.
- **Priodas a phartneriaethau sifil** – Mae priodas yn undeb rhwng dyn a menyw neu rhwng cwpl o'r un rhyw. Gall cyplau o'r un rhyw hefyd gael eu perthnasoedd wedi'u cydnabod yn gyfreithiol fel 'partneriaethau sifil'. Rhaid peidio â thrin partneriaid sifil yn llai ffafriol na pharau priod.

- **Beichiogrwydd a mamolaeth** – Y cyflwr o fod yn feichiog neu'n disgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Yn y cyd-destun nad yw'n ymwneud â gwaith, mae amddiffyniad rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth ac mae'n cynnwys trin menyw yn anffafriol oherwydd ei bod yn bwydo ar y fron.
- **Hil** – Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw, cenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), neu darddiad ethnig neu genedlaethol.
- **Crefydd neu gred** (gan gynnwys diffyg cred) – Mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddi fel arfer ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd yr ydych yn byw er mwyn iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad.
- **Rhyw** – Dyn neu fenyw.
- **Cyfeiriadedd rhywiol** – Bod yn heterorywiol, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Dyma bedwerydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y cyngor a bydd yn nodi ein hymrwymiaadau ar gyfer cyflawni ei nodau statudol i wneud y canlynol:

- (1) Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth
- (2) Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- (3) Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt

Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cefnogi'r cyngor i gyflawni dyletswyddau statudol eraill a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar gyfer pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol, gan gynnwys '*Cymru sy'n fwy cyfartal*', '*Cymru o gymunedau cydlynus*' a '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*', sy'n rhywbeth y bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn helpu i gyfrannu ato.

O fewn y Ddeddf, bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy'r pum ffordd o weithio hefyd yn ganolog i gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol:

1. Atal
2. Integreiddio
3. Cydweithio
4. Cynnwys
5. Hirdymor

## Ymrwymiad Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'i gweledigaeth i gefnogi Cymru deg a chyfiawn.

Ers cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf yn 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ymrwymïadau cynhwysfawr a phenodol sy'n ystyried yr anghydraddoldebau a amlygwyd ac a gafodd eu dwysáu yn ystod pandemig COVID-19. O ganlyniad, mae cynlluniau strategol cenedlaethol a chynlluniau gweithredu allweddol wedi'u datblygu a'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol a brofir gan unigolion a chymunedau. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys:

- Cynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru (2023)
- [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) (2022)
- Strategaeth Cymru o Blaid Pobl Hŷn (2021)
- [Cynllun Plant a Phobl Ifanc](#) (2022)
- [Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol](#) (2022)
- [Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) (2021)

Ein bwriad yw y bydd camau gweithredu penodol o'r cynlluniau cenedlaethol, pan fyddant yn berthnasol, yn ymwneud yn uniongyrchol â chynlluniau gweithredu ar gyfer pob un o'r amcanion strategol yn ein cynllun newydd. Bydd hyn yn dangos ein hatebolrwydd a'n hymrwymiad i helpu i gyflawni'r ymrwymïadau a nodau cenedlaethol a nodir gan Lywodraeth Cymru.

## **Sut y gwnaethom benderfynu beth ddylai ein hamcanion cydraddoldeb fod?**

Er mwyn creu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n berthnasol i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ym Mlaenau Gwent, roedd ymgysylltu â'r cyhoedd yn hollbwysig. Y cam cychwynol a gymerwyd oedd adolygu ein cynllun ar gyfer 2020-24 i lywio'r gwaith o greu arolwg cyhoeddus – roeddem am wybod beth oedd eich barn am ein hamcanion blaenorol a beth y dylem fod yn ei flaenoriaethu. Casglwyd y canlyniadau a'u defnyddio i lunio ein hamcanion arfaethedig, a amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori.

Er mwyn cyflawni cynllun yn llwyddiannus, mae angen i ni gael fframwaith effeithiol ar waith sy'n cynnwys y canlynol:

- Arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref
- Dull strwythurol ar gyfer sicrhau cydraddoldeb ar draws y sefydliad
- Amcanion a champau gweithredu clir
- Rhaglen gynnwys ac ymgysylltu ystyrlon
- Trefniadau monitro a pherfformiad effeithiol

Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024 i 2028 yn canolbwyntio ar y canlyniadau sydd o bwys i'r gymuned a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r cyngor. Rydym am iddo fod â ffocws ar wasanaethau sy'n hygyrch ac sy'n cael eu darparu'n effeithiol ac ar sail deg. Mae'r cynllun yn ystyried canfyddiadau gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd gennym, sydd wedi cynnwys 160 o bobl â phrofiadau bywyd ar draws y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Mae rhai enghreifftiau o'r rhai a gymerodd ran hyd yn hyn yn cynnwys:

- Rhwydweithiau rhieni
- Cynghorau ysgol



- Cynrychiolwyr o grwpiau ffydd a chrefyddol
- Grwpiau cymorth LHDTTC+
- Pobl hŷn
- Grwpiau cymorth gofalwyr ifanc
- Cynrychiolwyr o grwpiau ethnig leiafrifol
- Unigolion ag anabledd

At hynny, mae 48 o unigolion wedi cymryd rhan yn y broses gyda ni, drwy holiadur ar-lein i annog pobl i rannu eu barn a'u profiadau, ac mae'r rhain wedi siarad â ni'n fras am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Casglwyd a dadansoddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad a'u defnyddio i greu ein hamcanion arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori. Gofynnem eto i'r cyhoedd a oeddem wedi adlewyrchu eu hadborth yn yr amcanion arfaethedig drwy ail arolwg. Buom hefyd yn ymgysylltu ag amrywiol rwydweithiau a grwpiau lleol wyneb yn wyneb, fel y crybwyllwyd uchod. I gael adborth manylach, gweler y ddolen: [Adborth Ymgysylltu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, buom hefyd yn ymgynghori trwy ein strwythurau rheoli mewnol ar yr amcanion a awgrymwyd, gan gadarnhau eu bod yn cytuno â'r wybodaeth a rannwyd gan weithwyr proffesiynol mewn perthynas â chydraddoldeb.

Gwyddom eisoes fod llawer o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion gwarchoddedig yn rhai hirsefydlog ac wedi'u gwreiddio a bod angen ymrwymiad hirdymor i roi sylw llawn iddynt. Felly, mae'r amcanion cydraddoldeb a oedd gennym ar waith yn ystod y cynllun blaenorol rhwng 2020 a 2024 wedi'u hailystyried a'u mireinio yn hytrach na'u disodli.

Mae ein hamcanion cydraddoldeb mewn ‘themâu’ gan ein bod yn cydnabod bod llawer o’r materion cydraddoldeb allweddol a nodwyd gennym yn ymwneud â mwy nag un ‘nodwedd warchoddedig’ benodol yn unig – rydym yn cydnabod croestoriadedd ar gyfer pobl sy’n byw yn ein hardal.

Teimlwn y bydd ein hymagwedd thematig yn ein helpu i fynd i’r afael â materion perthnasol, ac felly rydym yn siŵr y bydd y camau yr ydym am eu cymryd i gyflawni’r amcanion hefyd yn sicrhau canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol i bobl sydd ag un neu fwy o’r nodweddion gwarchoddedig. Mae ein themâu yn cwmpasu:

- Diwylliant ac arweinyddiaeth sefydliadol
- Cynwysoldeb ac amrywiaeth y gweithlu
- Dysgu teg a chynhwysol
- Ymgysylltu a chyfranogiad cynhwysol
- Cydlyniant cymunedol
- Mynd i’r afael ag anfantais a achosir gan dlodi

### **Gwaith monitro ac adolygu**

Byddwn yn ymgorffori’r amcanion yn ein proses adrodd gorfforaethol, gan eu monitro’n chwarterol – bydd hyn yn ein cefnogi i wneud cydraddoldeb yn fusnes i bawb.

Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, sefydlwyd grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a fydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd ac atebolrwydd. Bydd y grŵp hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach drwy sefydlu grŵp goruchwyllo i fonitro cynnydd ac atebolrwydd y camau gweithredu sy’n gysylltiedig â phob amcan strategol. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn adolygu ac yn monitro’r cynnydd ar gyfer pob cam gweithredu.

Mae gennym ddyletswydd i gynhyrchu adroddiad blynyddol i amlygu cynnydd tuag at ein hamcanion. Bydd hwn hefyd yn amser allweddol i ystyried a allai fod angen newid ein camau gweithredu i ymgorffori ein camau nesaf.

Dros bedair blynedd ein cynllun, byddwn yn cyflawni cyfres o gamau gweithredu lefel uchel wedi'u targedu, ac wedi'u hategu gan ein hamcanion, a fydd yn cydfynd â'r cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol y soniwyd amdanynt eisoes.

**Mae ein hamcanion cydraddoldeb strategol fel a ganlyn:**

**Amcan Cydraddoldeb 1:** Byddwn yn sefydliad teg a chyfiawn.

**Amcan Cydraddoldeb 2:** Byddwn yn weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

**Amcan Cydraddoldeb 3:** Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

**Amcan Cydraddoldeb 4:** Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.

**Amcan Cydraddoldeb 5:** Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig.

**Amcan Cydraddoldeb 6:** Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.

# Amcan Cydraddoldeb 1

*Byddwn yn sefydliad teg a chyfiawn.*

## **Trosolwg**

Rydym yn cydnabod bod gan bawb hawl i gael eu trin ag urddas a pharch. Mae'r gallu i fyw a gweithio heb ragfarn yn hawl sylfaenol, beth bynnag fo cefndir, hunaniaeth a phrofiadau pobl.

Nid rhwymedigaeth gyfreithiol yn unig yw cydraddoldeb, ond hefyd yn gyfrifoldeb moesol a chymdeithasol. Er mwyn bod yn sefydliad teg a chyfiawn, mae angen arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol effeithiol sy'n hyrwyddo diwylliant o barch, atebolrwydd a chydweithio ar draws y sefydliad.

Un o'r ffyrdd yr ydym yn dangos ein hymrwymiad i gydraddoldeb yw trwy gyflawni ein rôl fel rhiant corfforaethol i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd wedi gadael gofal.

Fel sefydliad, rydym wedi ymrwymo i gyflawni'r dyletswyddau cydraddoldeb a osodir arnom fel corff cyhoeddus ac yn deall yr angen i sicrhau bod ein polisïau, ein harferion a'n gwasanaethau yn deg a chynhwysol ac yn ymatebol i anghenion a dyheadau amrywiol ein cymunedau a'n gweithlu.

## **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod yn cydnabod pwysigrwydd cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad, ond maent hefyd yn amlygu rhai o'r heriau a'r meysydd i'w gwella. Maen nhw'n awgrymu bod pobl eisïau gweld mwy o weithredu ac ymrwymiad gan yr arweinwyr a'r rheolwyr, yn ogystal â mwy o gyfleoedd i gydweithio a dysgu ar draws gwahanol grwpiau a thimau.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 1 yn cynnwys:

*“Dylem fod yn sefydliad sy'n gwrthod ac yn herio unrhyw wahaniaethu ac yn sicrhau tegwch a chynhwysiant i bawb.”*

*“Mae angen cysondeb ar draws y sefydliad gydag arweinyddiaeth gref, rheolaeth dda wrth weithio mewn partneriaeth a chydweithio gyda phartneriaid allanol, a chefnogaeth yr undebau.”*

**Ffynhonnell:** Arolwg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blaenau

Gwent 2023

*“Mae angen i ni sicrhau bod pawb yn ymwybodol o ragfarn – rwy'n hapus i gywiro eraill ond gall rhai o'r hyn a ddywedir ypsetio eraill sy'n ystyried eu bod yn hoyw.”*

**Ffynhonnell:** Aelod o staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, ymgysylltu

cydraddoldeb 2023

### **Ar ba waith gwerthfawr yr ydym yn adeiladu:**

- Datblygu Asesiad Effaith Integredig newydd a dogfen ganllaw gysylltiedig i staff
- Cyflwyno hyfforddiant cydraddoldeb hiliol wedi'i dargedu i'n tîm arwain a'n haelodau etholedig
- Cefnogaeth barhaus i ymgyrchoedd cydraddoldeb cenedlaethol a rhanbarthol

- Dangos arweinyddiaeth drwy fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar ein cymunedau gydag agwedd sefydliadol, e.e. yr argyfwng costau byw ac adsefydlu
- Gwella'r data cydraddoldeb a gasglwyd gan ein staff i greu gwell dealltwriaeth o weithlu'r sefydliad
- Rhoi Cynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol Blaenau Gwent 2023/24 ar waith

**Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 1:**

- Dangos ymrwymiad ac awydd cryf i fod yn arweinydd ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiadau gwrth-wahaniaethol ledled y sefydliad
- Ymrwymo i integreiddio disgwyliadau allweddol o strategaethau a chynlluniau cenedlaethol yn ein dull o ymdrin â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, e.e. Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru
- Cryfhau ein cynlluniau, polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â chydaddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan ystyried y canllawiau mwyaf diweddar, e.e. o ran datganiadau a diffiniadau
- Ymgorffori'r Asesiad Effaith Integredig ar ei newydd wedd ym mhob rhan o brosesau penderfynu'r sefydliad
- Hyrwyddo materion cydraddoldeb trwy wreiddio profiadau bywyd pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth gynllunio, darparu ac adolygu ein gwasanaethau
- Gwneud ymdrech i ddeall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cyrchu ein gwasanaethau a chael budd ohonynt a gwneud popeth o fewn ein gallu i'w lliniaru

- Datblygu a darparu ymhellach ystod o hyfforddiant, seminarau, digwyddiadau ac adnoddau dysgu cyfoes a pherthnasol ar gydraddoldeb ar gyfer ein harweinwyr gwleidyddol a phroffesiynol
- Ymrwymo i egwyddorion y Siarter Rhianta Corfforaethol Genedlaethol

### **Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Rydym am wneud gwahaniaeth drwy greu sefydliad sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei staff a'i gwsmeriaid ac sy'n hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant a pherthyn. Rydym am sicrhau bod pawb yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu eu sgiliau a'u doniau ac i gyfrannu at ein gweledigaeth a'n cenhadaeth. Rydym am gael gwared ar unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cael mynediad i'n gwasanaethau a chael budd ohonynt ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o wahaniaethu, aflonyddu neu fwlio. Rydym am fod yn fodel rôl ar gyfer sefydliadau a sectorau eraill a dylanwadu ar newid cadarnhaol yn ein cymunedau a thu hwnt.

Rydym am ddangos, drwy fod yn rhiant corfforaethol da, ein bod nid yn unig yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol ond hefyd yn cyfrannu at yr agenda cydraddoldeb ehangach. Byddwn yn ymdrechu i hyrwyddo hawliau a buddiannau grŵp o bobl sy'n agored i niwed ac yn aml wedi'u hymyleiddio a sicrhau eu bod yn cael eu trin â pharch, urddas a thegwch.

## **Amcan Cydraddoldeb 2**

*Byddwn yn weithle sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.*

### **Trosolwg**

Fel y cyflogwr mwyaf yn yr ardal, rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel yn y gweithle. Rydym yn deall yr angen i feithrin gweithle cynhwysol ac amrywiol sy'n galluogi unigolion a thimau i ffynnu ac sy'n creu'r lefelau boddhad swydd gorau posibl.

Ein nod yw meithrin diwylliant o gynhwysiant sy'n dathlu amrywiaeth ac yn hyrwyddo perthyn, cydweithio ac arloesi. Rydym yn anelu at fod yn gyflogwr o ddewis sy'n denu ac yn cadw talent amrywiol o bob cefndir a hunaniaeth.

Mae'n hanfodol ein bod yn darparu staff ar bob lefel gydag arweiniad, hyfforddiant a chymorth sy'n briodol a diweddar ar faterion allweddol megis gwrth-hiliaeth, LHDTTC+, anabledd, rhyw ac oedran.

### **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Dangosodd adborth o'r arolwg i ni fod pobl yn awyddus i weld mwy o amrywiaeth a chynrychiolaeth yn y sefydliad a bod staff yn awyddus i ddysgu a newid. Mae staff wedi datgan eu bod yn edrych am fwy o eglurder o ran y strwythur sefydliadol a sut mae'n cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.

Mynegwyd agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae pobl yn ceisio mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r materion y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 2 yn cynnwys:



*“Mae brwdfrydedd i greu newid o fewn y sefydliad.”*

*“Mae arnom angen gwell dealltwriaeth fel gweithlu o sut y caiff y sefydliad ei adeiladu a sut y caiff pobl â nodweddion gwarchoddedig eu cynrychioli.”*

**Ffynhonnell:** Arolwg Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Blaenau  
Gwent 2023

*“Mae angen mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth – nid oes angen i ni fod yn ofnus i edrych oddi mewn gan y bydd hyn yn arwain at newid cadarnhaol.”*

**Ffynhonnell:** Aelodau staff fel rhan o sgwrs ymgysylltu 2023 ar y Cynllun  
Cydraddoldeb Strategol

### **Ar ba waith gwerthfawr yr ydym yn adeiladu:**

- Datblygu a gweithredu ein Strategaeth Gweithlu Sefydliadol
- Ystyriaeth flynyddol o’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Datblygu ac adolygu polisïau allweddol megis gweithio ystwyth a’r hawl i ofyn am weithio hyblyg
- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus i staff ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i’n staff drwy ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol
- Cyflwyno rhaglen brentisiaethau a rennir Anelu’n Uchel a phrosiect mentoriaid Anelu’n Uchel ar gyfer plant sy’n derbyn gofal

## **Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 2:**

- Creu diwylliant staffio cynhwysol lle mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu cydnabod, eu gwerthfawrogi a'u dathlu
- Cynyddu dealltwriaeth o weithredu cadarnhaol fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a deall sut i'w ymgorffori yng ngwaith ein staff
- Bodloni ein gofyniad cyfreithiol i gyhoeddi data ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac ystyried adroddiad ar fylchau cyflog ar sail anabledd ac ethnigrwydd
- Sicrhau cyfle cyfartal wrth recriwtio staff
- Ceisio nodi lefelau amrywiaeth ethnig leiafrifol gan ddefnyddio data datblygu sefydliadol a defnyddio hyn fel meincnod i archwilio unrhyw strwythurau a rhwystrau diwylliannol
- Monitro cydraddoldeb yn yr hyn yr ydym yn ei hyrwyddo i staff, yr hyfforddiant a ddarperir gennym, a'n polisiau a'n gweithdrefnau disgyblu a chwyno
- Gweithredu ac adolygu'r cyfleoedd hyfforddi ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan ddefnyddio'r porth hyfforddi newydd 'Thinqi' gyda ffocws penodol ar faterion allweddol fel gwrth-hiliaeth, LHDTTC+, anabledd, rhyw ac oedran
- Parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth i'n staff ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, e.e. cymorth cwnsela, caffis menopos a materion yn ymwneud ag iechyd
- Sicrhau bod staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig wedi'u hyfforddi'n ddigonol ac yn gallu ymateb yn briodol i faterion cydraddoldeb

- Anelu at gynyddu lefelau hunanddiffinio gan ein staff ar bob nodwedd warchodedig a chynyddu hyder wrth rannu data
- Ymrwymo i gasglu a defnyddio 'profiadau bywyd' ein gweithlu

**Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Rydym am i'n staff adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu trwy ddarparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer datblygiad gyrfa a dilyniant i'r holl staff, waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig neu eu hamgylchiadau personol. Rydym am annog staff i rannu eu profiadau er mwyn llywio ein polisïau a'n harferion a gwella amgylchedd ein gweithle.

Rydym am hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad a herio unrhyw ffurf ar wahaniaethu, aflonyddu neu fwlio.

## **Amcan Cydraddoldeb 3**

*Byddwn yn creu diwylliant dysgu teg a chynhwysol i bob plentyn ac unigolyn ifanc gyda ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.*

### **Trosolwg**

Mae deall eich hunaniaeth yn rhan bwysig o ddatblygiad plentyn. Mae'n digwydd ym mlynnyddoedd cynnar ei fywyd ac yn ei ddilyn i fyd oedolion.

Nid yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn ein lleoliadau addysg a dysgu yn gysyniad newydd ac mae'n parhau i fod yn her barhaus ym Mlaenau Gwent. Gwyddom fod diwylliannau dysgu teg a chynhwysol yn hyrwyddo tegwch, mynediad, cyfranogiad a chyflawniad i bob dysgwr, waeth beth fo'u hunaniaeth, gallu neu amgylchiadau. Mae diwylliannau dysgu teg a chynhwysol hefyd yn meithrin ymdeimlad o berthyn, cydweithredu a chydgyfath ymhlith dysgwyr ac addysgwyr.

Mae creu amgylchedd dysgu cadarnhaol a pharchus ar gyfer pob dysgwr yn gofyn am ymrwymiad a chydweithrediad gan yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses ddysgu, gan gynnwys addysgwyr, dysgwyr, gweinyddwyr, llunwyr polisi ac aelodau o'r gymuned.

### **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Mae plant a phobl ifanc wedi dangos dewrder, didwylledd a gonestrwydd yn ystod ein gwaith ymgynghori â nhw. Maent wedi mynegi'r hyn y maent yn meddwl sydd angen ei newid a bod cydnabyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn aml yn arwynebol yn hytrach nag yn rhan integredig o'r diwylliant

dysgu. Yn benodol, soniwyd am ymarferion ticio blychau yn hytrach na newid systemig.

Dywedodd plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchodedig penodol eu bod weithiau'n teimlo'n anniogel ac yn destun gwahaniaethu o gymharu â'r rhai nad ydynt â nodweddion gwarchodedig.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 3 yn cynnwys:

*“Rwy'n cael fy ngalw'n sipsi drewllyd ac ati, ond ni wneir dim – mae fel nad yw'n cael ei ystyried yn fater hil.”*

*“O ble wyt ti, wyt ti'n byw mewn carafán?”*

**Ffynhonnell:** Sesiwn gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliad ysgol fel rhan o waith ymgysylltu 2023 ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

*“Cefais fy mwlio'n barhaus drwy'r ysgol am fod yn fenywaidd.”*

**Ffynhonnell:** Sesiwn bersonol gyda defnyddiwr gwasanaeth fel rhan o waith ymgysylltu 2023 ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

*“Mae angen i ni ddechrau gyda'r plant gan mai nhw yw ein dyfodol – fel mae'r dywediad Affricanaidd yn nodi, mae'n cymryd cymuned gyfan i fagu plentyn. Nid yw'n ymwneud â chosb – mae'n ymwneud â sicrhau bod plant a phobl ifanc yn deall caredigrwydd ac empathi.”*

**Ffynhonnell:** Sesiwn cydraddoldeb yn 2023 ar gyfer aelodau o'r Ffydd Bahá'i  
ym Mlaenau Gwent

### **Ar ba waith gwerthfawr yr ydym yn adeiladu:**

- Ymyrraeth wedi'i thargedu ac arbenigol ar gyfer gofalwyr ifanc trwy ein darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf
- Datblygu grŵp cymorth LHDTTC+ o fewn tair o'r pedair ysgol uwchradd yn y fwrdeistref
- Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn a Theithwyr trwy wasanaeth wedi'i dargedu
- Datblygu dull rhanbarthol o fynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion
- Recriwtio gweithiwr ethnig leiafrifol trwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf
- Yr Uwch-Gyngor Plant – gweithdai sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb i ddeall y materion cydraddoldeb y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu
- Gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth ag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cydraddoldeb ysgol
- Blaenoriaethau'r fforwm ieuencid sy'n adlewyrchu lleisiau plant a phobl ifanc mewn perthynas â chydraddoldeb, gan gynnwys Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac ati

### **Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 3:**

- Gwella data cydraddoldeb a threfniadau monitro gydag ysgolion
- Datblygu'r cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth yn yr ysgol a ddatblygwyd fel rhan o'r dull rhanbarthol
- Cefnogi amrywiaeth o ymyriadau priodol a fydd ar gael i ysgolion i ddiwallu anghenion llesiant dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol
- Cryfhau adrodd ar faterion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn ysgolion

- Gweithio gyda sefydliadau addysg i gynyddu cynrychiolaeth o grwpiau ethnig leiafrifol ar y fforwm ieuenctid
- Gweithio gydag ysgolion i ymgorffori a chyflwyno cynlluniau cydraddoldeb ysgolion
- Ystyried rhwydwaith cymorth cymheiriaid sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb ar gyfer staff ysgolion
- Cefnogi llywodraethwyr ysgol i benodi arweinwyr gwrth-hiliaeth
- Ceisio mabwysiadu a gweithredu canllawiau trawsrywiol Llywodraeth Cymru pan gânt eu cyhoeddi
- Creu gwell sianeli adborth gan grwpiau cymorth LHDTTC+ mewn ysgolion uwchradd i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed

### **Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Rydym am wella ansawdd a pherthnasedd dysgu trwy gydnabod a mynd i'r afael ag anghenion, diddordebau a nodau amrywiol dysgwyr. Ein nod yw gwella canlyniadau a lles dysgwyr trwy roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu potensial, mynegi eu llais, a chyfrannu at eu cymunedau. Byddwn yn ymdrechu i hybu gwerthoedd ac egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, hawliau dynol a democratiaeth drwy herio gwahaniaethu, rhagfarn a gormes, a thrwy rymuso dysgwyr i ddod yn ddinasyddion gweithredol a chyfrifol.

## **Amcan Cydraddoldeb 4**

*Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.*

### **Trosolwg**

Er mwyn sicrhau cymunedau cydlynol o fewn Blaenau Gwent, rhaid i bob unigolyn sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal deimlo'n rhan ohoni ac yn ddiogel – syniad sy'n cael ei adleisio yn ein hymrwymiad parhaus i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gan weithio mewn partneriaeth, byddwn yn anelu at gefnogi'r nodau cenedlaethol a nodir yn y Ddeddf o greu 'Cymru fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynus'. Bydd y nodau hyn yn cael eu hymgorffori o fewn y rhaglenni a'r mentrau a gyflwynir gennym, a fydd yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb er mwyn dathlu a dod â chymunedau ynghyd.

### **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Er mwyn cyflawni'r amcan i hyrwyddo a chefnogi cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol, mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried y nodweddion gwarchoddedig wrth ddarparu gwasanaethau sy'n addysgu ac yn cefnogi unigolion agored i niwed yn y gymuned. Mae sicrhau bod ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn wybodus am yr holl gynlluniau, strategaethau a mentrau, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTTC+ Cymru ac ati, yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n rhwystro Amcan 4, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, lle mae anghydaddoldeb yn achos sylfaenol.

Rhaid inni fod yn hyderus y darperir addysg ddigonol ar bwysigrwydd cydraddoldeb gan fod hyn yn hollbwysig i atal agweddau sy'n annog rhagfarn o fewn y gymuned. Felly, rhaid inni ymgysylltu â'r cyhoedd i ddeall nid yn unig y



rhai sy'n destun rhagfarn ond hefyd y cyflawnwyr. Bydd yr ymgysylltu hwn yn cefnogi cofleidiad cadarnhaol o gydraddoldeb fel dathliad o bobl o wahanol hil, rhyw, oedran ac ati, gan ffurfio cymunedau cydlynol.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 4 yn cynnwys:

*"Sut mae sicrhau bod pawb yn gwybod am Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol?"*

**Ffynhonnell:** Sesiwn cydraddoldeb yn 2023 ar gyfer aelodau o'r Ffydd Bahá'í  
ym Mlaenau Gwent

*"Rydyn ni i gyd yr un peth, does dim ots am liw eich croen na'ch ffydd, crefydd neu ryw."*

**Ffynhonnell:** Sesiwn yr Uwch-Gyngor Plant, Tachwedd 2023

*"Pam na allant adael llonydd i mi a fy nghymuned, pam mae'n rhaid iddynt fod yn angharedig? Rwy wedi cael llond bol o weld sut mae fy mhobl yn cael eu heffeithio oherwydd pwy ydyn nhw – fi yw fi fy hun ac rwy'n bod yn fi!"*

*"Rwy'n defnyddio'r toiledau i ferched ac mae'n ddrwg gennyf os yw hynny'n gwneud ichi deimlo'n anghyfforddus."*

**Ffynhonnell:** Sesiwn bersonol gyda defnyddiwr gwasanaeth fel rhan o waith  
ymgysylltu 2023 ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

*"Pam na chredwn ni, pam rydyn ni'n cael ein trin yn wahanol i fenywod, a pham mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod mor galonogol a Diwrnod Rhyngwladol y Dynion am hunanladdiad?"*

**Ffynhonnell:** Grŵp tadau fel rhan o'r gwaith ymgysylltu ar y Cynllun  
Cydraddoldeb Strategol

### **Ar ba waith gwerthfawr yr ydym yn adeiladu:**

- Cyflwyno lluo o ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol sy'n codi proffil materion yn ymwneud â chydraddoldeb megis Diwrnod Cofio'r Holocaust, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, y Diwrnod Rhuban Gwyn, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Mis Hanes Pobl Ddu
- Cefnogi gweithrediad effeithiol cynllun adsefydlu'r DU, y mae Blaenau Gwent wedi'i gefnogi ers 2016
- Darparu cefnogaeth i brosiectau cymunedol gyda mentrau sy'n hybu dealltwriaeth a pharch rhwng gwahanol grwpiau o bobl ac yn creu cyfleoedd i bobl o bob cefndir uno i gael Grantiau Cydlyniant Cymunedol

### **Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 4:**

- Gweithio gyda grwpiau cymunedol, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed mewn perthynas â'u nodweddion gwarchoddedig, i gael dealltwriaeth gyfoethog a chyfoes o agweddau mewn perthynas â chydraddoldeb
- Gweithio'n agos gyda'n partneriaid i fonitro gweithgareddau sy'n bygwth diogelwch cymunedau er mwyn deall sut i roi mesurau ataliol ar waith
- Datblygu ymgyrchoedd arloesol sy'n hyrwyddo ac yn hysbysu'r gymuned wrth ddathlu amrywiaeth a choffáu digwyddiadau hanesyddol perthnasol
- Herio stereoteipiau negyddol ar lefel sefydliad cyfan
- Adolygu ein henebion ac enwau strydoedd er mwyn cymryd camau priodol mewn perthynas â'r rhai sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth a gwladychiaeth
- Nodi hyrwyddwyr cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob adran i helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i'r nodweddion gwarchoddedig wrth ddarparu ein gwasanaethau

- Parhau i weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i ddarparu pecyn cymorth cyfannol i'r rhai y mae arnynt angen adsefydlu
- Dysgu o brofiadau pobl sy'n ceisio noddfa ym Mlaenau Gwent
- Parhau i gefnogi'r gymuned LHDTC+ ac ystyried cynnal digwyddiadau Pride
- Codi ymwybyddiaeth o beth yw trosedd gasineb a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod sut a ble i riportio troseddau casineb

### **Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Rydym am allu ymfalchïo yn ein cymunedau, gan wybod bod eu haelodau'n teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cynnwys.

Ein nod yw gweld mwy o ymwybyddiaeth ymhlith ein cymunedau o'r nodweddion gwarchoddedig, gan leihau digwyddiadau sy'n peryglu'r teimlad o ddiogelwch i bob unigolyn yn ein hardal. At hynny, ein nod yw gwella'n barhaus ein cydweithio rhwng ein swyddog a'n hyrwyddwyr cydraddoldeb a'r timau diogelwch a chydlyniant cymunedol i fonitro digwyddiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb. Rydym am iddi fod yn glir i'r cyhoedd bod eu diogelwch a'u cynhwysiant yn flaenoriaethau i'r cyngor ac am sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt geisio arweiniad ynghylch cefnogi a datblygu cymunedau mwy cydlynol.

Ein gweledigaeth yw bod yn gymuned sy'n gweld gwerth mewn cydraddoldeb ac sy'n batrwm o ran ystyried y rheini sydd fwyaf agored i niwed ym mhroses gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau'r cyngor.

## **Amcan Cydraddoldeb 5**

*Byddwn yn sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad effeithiol ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig.*

### **Trosolwg**

Fel cyngor, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn chwarae eu rhan wrth gyflawni ein gweledigaeth a'n rhaglen uchelgeisiol ar gyfer gweithredu a newid. Yn allweddol i hyn bydd sut rydym yn ymgysylltu'n benodol â phobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac sydd â nodweddion gwarchoddedig. Rydym hefyd yn deall sut mae agweddau ar hunaniaeth rhywun yn cyfuno i greu gwahaniaethu a breintiau gwahanol a lluosog. Mae ein Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad yn cael ei datblygu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ystyried croestoriadedd. Byddwn yn defnyddio'r holl offer ymgysylltu sydd ar gael, o drafodaethau personol i arolygon ffurfiol ar-lein.

### **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Fel y dywedodd aelod o gymuned Blaenau Gwent a grŵp y Ffydd Baha'i, "Sgwrs yw lle mae newid yn dechrau" ac, fel y cyfryw, rhaid i ni fuddsoddi mewn ymgysylltu effeithiol. Nid yn unig y dylai Blaenau Gwent fod yn ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion wrth gynllunio sut rydym yn darparu ein gwasanaethau ac wrth llunio ein cynlluniau a'n polisiau, ond hefyd yn rhoi adborth clir i'r cyhoedd ar y canlyniadau a sut rydym wedi ystyried eu barn yn ein gwaith. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i gasglu barn y cyhoedd ar ein gweithredoedd i fesur eu llwyddiant ac i unioni unrhyw ddiffygion.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 5 yn cynnwys:

*“Buddsoddi mewn ymgysylltu, dod â phobl at ei gilydd mewn mannau diogel a rennir, annog sgysiau, a gallai hyn achosi newid gwirioneddol.”*

**Ffynhonnell:** Sesiwn cydraddoldeb yn 2023 ar gyfer aelodau o'r Ffydd Bahá'í  
ym Mlaenau Gwent

*“Mwy o weithwyr sy'n dadau i gefnogi tadau o fewn Blaenau Gwent.”*

**Ffynhonnell:** Grŵp tadau fel rhan o waith ymgysylltu 2023 ar y Cynllun  
Cydraddoldeb Strategol

*“Rhoi adborth i gymunedau am ganlyniadau fel bod cymunedau yn glir ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.”*

**Ffynhonnell:** Grŵp Cymunedol Un Bywyd fel rhan o waith ymgysylltu 2023 ar y  
Cynllun Cydraddoldeb Strategol

### **Ar ba waith gwerthfawr yr ydym yn adeiladu:**

- Datblygu Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad
- Datblygu Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Cynnal asesiad o'r effaith ar y gymuned i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc 16-24 oed, y rhai ag anabledd dysgu, teuluoedd â phlant o dan 11 oed, pobl â gwendidau newydd, a'r lluoedd arfog
- Swyddogion ymgysylltu cymunedol yn parhau i ganolbwyntio ar wrando ar leisiau plant a theuluoedd agored i niwed yn y gymuned i ddeall yr hyn

sy'n bwysig iddynt a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan gynnwys:

- Prosiect garddio Sow Pretty ym Mharc Bryn Bach mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Hamdden Aneurin
- Clybiau ieuenctid yn cynnal gweithgareddau wythnosol, gan gynnwys Zumba, ioga, coginio, celf, adrodd straeon a throelli disgiau
- Teithiau a digwyddiadau i ofalwyr ifanc a'r Wyl Gofalwyr Ifanc
- Clwb Celfyddydau Anabledd 18-25
- Y prosiect Gair Llafar (iechyd meddwl mamau)
- Dathliad Diwrnod y Llyfr – yn sicrhau bod adnoddau ar gael i bawb

**Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 5:**

- Gweithredu'r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad
- Cynnal gweithgareddau ymgysylltu a chyfranogi sy'n cofnodi 'profiadau bywyd' pobl sy'n byw â nodweddion gwarchoddedig
- Annog gwell cynrychiolaeth a chyfranogiad yng ngweithgareddau'r cyngor a'i broses o wneud penderfyniadau gan bobl ifanc, pobl anabl, pobl LHDTG+, a phobl o grwpiau ethnig leiafrifol
- Goruchwylio gweithgarwch ymgysylltu a chyfranogi i fonitro pa mor dda a pha mor aml yr ydym yn ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchoddedig
- Adolygu Panel Dinasyddion Blaenau Gwent a sut rydym yn hyrwyddo'r panel i gael mewnwelediad sy'n canolbwyntio ar unigolion ar faterion cydraddoldeb

- Adolygu a chryfhau sut mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u hystyried yn ystod y broses o gyflwyno a dylunio ein gwasanaethau
- Annog a chefnogi ymhellach gyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gadael gofal ym mhob rhan o wasanaethau'r cyngor

**Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Rydym am weld cynnydd mewn ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig o ran ymgysylltu â safbwyntiau rhannau o'r gymuned lle'r ydym yn gweld lefelau isel o gyfranogiad ar hyn o bryd. Nodwedd warchoddedig yr ydym yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â hi yw pobl ifanc. Nododd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod Blaenau Gwent yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran 'y ganran o oedolion 16+ oed sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol'. Felly, rydym am weithio gyda'n darparwyr addysg, y gwasanaethau ieuenctid a'r fforwm ieuenctid i gryfhau'r modd yr ydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

## Amcan Cydraddoldeb 6

*Byddwn yn ymdrechu i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi.*

### Trosolwg

Rydym wedi ymrwymo i fodloni ein gofynion o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd bellach yn cynnwys mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi. Rydym yn ceisio sicrhau bod y rhai sy'n profi tlodi, neu'r rhai sy'n byw mewn safonau byw llai ffafriol, yn cael eu hystyried yn ystod prosesau gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae anghydraddoldeb yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn anghymesur. Tlodi yw un o brif achosion a chanlyniadau anghydraddoldeb, ac mae'n cael effeithiau penodol a gwahaniaethol ar wahanol grwpiau. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig a achosir gan dlodi yn gofyn am ddull cyfannol wedi'i dargedu sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a'r ffyrdd y mae'n amlygu ei hun.

Mae'r argyfwng costau byw sydd wedi ysgubo ar draws y Deyrnas Unedig ers 2022 wedi golygu bod pobl yn cael trafferth gyda chostau cynyddol fel biliau ynni a bwyd. Mae chwyddiant wedi parhau i godi'n gyflym, ac nid yw incwm wedi cynyddu ar yr un lefelau neu lefelau tebyg.

Fel sefydliad, rydym wedi bod yn benderfynol o helpu'r rhai yn ein cymunedau sydd angen cymorth, cyngor, cefnogaeth neu arweiniad, yn enwedig i'r rhai sydd ei angen fwyaf.



## **Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym:**

Roedd y gwaith ymgysylltu yn cofnodi'r heriau bywyd go iawn a wynebir gan lawer o bobl â nodweddion gwarchoddedig lluosog. Mae cael trafferth talu am anghenion sylfaenol fel bwyd, gwres a gweithgareddau hamdden yn gyffredin. Mae pobl wedi rhannu eu bod yn defnyddio strategaethau ymdopi fel cyfyngu ar eu nwy, gwisgo mwy o ddillad, neu ddefnyddio poteli dŵr poeth i gadw'n gynnes.

Mae'r effaith economaidd ar bobl ar hyn o bryd wedi gwneud iddynt deimlo dan straen, yn rhwystredig neu'n anobeithiol am eu sefyllfa ariannol a sut mae'n effeithio ar ansawdd eu bywyd.

Mae rhai o'r themâu a negeseuon allweddol y mae pobl wedi'u dweud wrthym am Amcan 6 yn cynnwys:

*"Rydw i a fy ngŵr yn gweithio ac rydym yn dal i fethu fforddio gwneud unrhyw beth – mae ein bil bwyd wedi codi ac mae hyn yn ein gadael heb fawr o arian ar gyfer byw."*

*"Y rhan fwyaf o fisoedd rwy'n rhedeg allan o arian yn yr wythnos olaf felly ni allaf roi mwy o nwy ar y mesurydd nes i mi dderbyn fy arian."*

*"Mae fy mhlentyn yn hŷn nawr felly gallaf ei wisgo mewn haenau o ddillad ac rwy'n rhoi potel dŵr poeth o dan ei fatres fel ei fod bob amser yn gynnes."*

*"Mae cael fy mudd-daliadau yn fisol wedi bod yn anodd iawn."*

*"Mae contractau dim oriau yn effeithio ar eich budd-daliadau felly mae mor anodd cyllidebu."*

*"Byddwn wrth fy modd yn gweithio ond nid oes lleoedd gofal plant ar gyfer yr oriau y gallaf eu gweithio."*

**Rhai enghreifftiau o gynnydd hyd yma:**

- Cyflwyno rhaglenni gwrthdlodi a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Plant a Chymunedau
- Sefydlu 'canolfannau clyd' ledled Blaenau Gwent sy'n cynnig noddfa yn ystod y dydd i'r rhai sy'n cael trafferth gyda chostau byw uwch
- Gweithio mewn partneriaeth â lleoliadau cymunedol i wella a chefnogi'r ddarpariaeth banc bwyd ar draws yr ardal
- Datblygu Grŵp Costau Byw a ffrwd waith ategol
- Cynnal 'Apêl Teganau Nadolig' Blaenau Gwent yn llwyddiannus ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a nodwyd
- Hyrwyddo cynlluniau cymorth costau byw, e.e. gostyngiadau yn y dreth gyngor, taliadau tanwydd gaeaf, a grantiau gwisg ysgol
- Diwygio'r Asesiad Effaith Integredig i sicrhau bod grwpiau economaidd-gymdeithasol â nodweddion gwarchodedig yn cael eu hystyried yn llawn

**Rhai o'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni Amcan Cydraddoldeb 6:**

- Dangos sut yr ydym yn cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodir arnom gan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol
- Ystyried agwedd economaidd-gymdeithasol yr Asesiad Effaith Integredig
- Hyrwyddo a gwella cymorth costau byw ymhellach i'n cymunedau a gweithlu Blaenau Gwent
- Ceisio defnyddio'r materion a nodwyd drwy'r hybiau cymunedol a gwasanaethau Cyngor ar Bopeth i ddylanwadu ar ffrwd waith costau byw

- Sicrhau bod anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei hystyried wrth ymgysylltu a sicrhau cyfranogiad
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi i ddeall sefyllfa economaidd-gymdeithasol ein grwpiau LHDTTC+ ac ethnig leiafrifol ym Mlaenau Gwent
- Parhau i flaenoriaethu cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal y mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n andwyol ar eu bywydau
- Ystyried canfyddiadau adroddiad tlodi plant Plant yng Nghymru

### **Pa wahaniaeth rydym am ei wneud:**

Ein nod yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a wynebir gan bobl sy'n byw mewn tlodi ac sydd â nodweddion gwarchodedig fel bod pawb yn gallu cael mynediad cyfartal at gyfleoedd ac adnoddau, ni waeth pwy ydynt, o ble y maent yn dod, neu beth maent yn ei wynebu. Ein nod yw galluogi pobl â nodweddion gwarchodedig i ymgysylltu'n llawn ac yn effeithiol â chymdeithas a chael dweud eu dweud ac effaith ar y dewisiadau sy'n effeithio arnynt, ac, yn olaf, rydym yn gobeithio lleihau'r bylchau a'r gwahaniaethau mewn canlyniadau a llesiant ymhlith gwahanol grwpiau a sicrhau nad oes neb yn cael ei eithrio na'i drin yn annheg oherwydd ei amgylchiadau economaidd.